OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 1748

# Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2004

**Disgrifiadau rhagnodedig o bersonau — gwasanaethau gofal cymunedol a gwasanaethau i ofalwyr**

**3.**—(1) At ddibenion adran 57(1) o Ddeddf 2001, mae person sy'n dod fewn adran 57(2) o'r Ddeddf honno(**1**) o ddisgrifiad rhagnodedig—

(a) os yw'n berson y mae'n ymddangos i'r awdurdod cyfrifol ei fod yn gallu rheoli taliad uniongyrchol ar ei ben ei hun, neu gyda'r cymorth hwnnw a all fod ar gael iddo; a

(b) os daw o fewn disgrifiad ym mharagraff (2); oni bai

(c) ei fod yn berson y mae Atodlen 1 yn gymwys iddo.

(2) Dyma'r disgrifiadau —

(a) person y mae adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 (**2**) yn gymwys iddo;

(b) person (nad yw'n berson sy'n dod o fewn is-baragraff (a)) y cyfeirir ato yn adran 57(2)(a) o Ddeddf 2001(personau y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu mewn perthynas â hwy bod eu anghenion yn galw am ddarparu gwasanaeth gofal cymunedol penodol) sydd dros 65 oed;

(c) person y mae'r awdurdod cyfrifol wedi penderfynu mewn perthynas ag ef o dan adran 2(1) o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (gwasanaethau i ofalwyr) i ddarparu gwasanaeth penodol o dan y Ddeddf honno ar ei gyfer.

(**1**) Daw person o fewn adran 57(2) o Ddeddf 2001 os yw'r awdurdod cyfrifol wedi penderfynu: (i) bod ei anghenion yn galw am iddynt ddarparu gwasanaethau gofal cymunedol penodol ar ei gyfer; neu (ii) darparu gwasanaeth penodol iddo yn rhinwedd adran 2(1) o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000.

(**2**) 1948 p.47. Mae adran 29 yn gymwys i "persons aged eighteen or over who are blind, deaf or dumb or who suffer from mental disorder of any description, and other persons aged eighteen or over who are substantially and permanently handicapped by illness, injury, or congenital deformity or such other disabilities as may be prescribed…".